Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Unedau cwarantîn

Canllawiau i geidwaid da byw

Fersiwn 0.1 2019

# Cyflwyniad

Cyflwynwyd mesurau rheoli symudiadau da byw yn gyntaf ar ôl achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001. Doedd dim unrhyw gyfnod gwahardd symud yn bodoli cyn hynny, ac ystyriwyd bod symudiadau da byw yn gyfrifol am ledaenu'r clefyd yn sylweddol yn ystod yr achos hwnnw ohono.

Dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, pan fydd gwartheg, defaid, geifr a/neu foch yn cael eu symud i ddaliad, bydd hynny'n sbarduno cyfnod gwahardd symud sy'n eich atal rhag symud unrhyw un o'r rhywogaethau hynny oddi ar y daliad, oni eir â'r anifail yn syth i'w lladd. Y cyfnod gwahardd symud ar gyfer gwartheg, defaid a geifr yw chwe niwrnod, sef y 'gwaharddiad symud am 6 niwrnod' (6DSS). Bydd moch sy'n symud i ddaliad yn cychwyn cyfnod gwahardd symud o 20 niwrnod ar gyfer pob mochyn ar y daliad, ond dim ond gwaharddiad symud am 6 niwrnod ar gyfer unrhyw wartheg, defaid a geifr sydd ar y daliad.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r Egwyddorion, y Gofynion a'r Rheolau Gweithredu ar gyfer Unedau Cwarantîn fel eithriad i'r gwaharddiad symud am 6 niwrnod ar gyfer gwartheg, defaid a geifr ar y prif ddaliad. **Nid yw'r eithriad yn gymwys i foch.**

# Egwyddorion Unedau Cwarantîn

1. Mae Unedau Cwarantîn cymeradwy yn eithrio trefniadau'r gwaharddiad symud am 6 niwrnod ar gyfer gwartheg, defaid a geifr. Ni fydd symudiadau i Unedau Cwarantîn cymeradwy yn cychwyn cyfnod gwaharddiad symud am 6 niwrnod ar y prif ddaliad, gan ganiatáu i ffermwyr symud anifeiliaid oddi ar brif ddaliad tra bod gwartheg, defaid a geifr sy'n dod i mewn yn cadw at ofynion gwaharddiad symud am 6 niwrnod ar Uned Gwarantîn.
2. Gall ceidwaid da byw ddewis rhwng defnyddio Unedau Cwarantîn cymeradwy i reoli symudiadau gwartheg, defaid a geifr neu lynu at y gwaharddiad symud am 6 niwrnod ar eu daliad cyfan.
3. Gall daliadau gael hyd at ddwy Uned Gwarantîn a gall pob uned gynnwys hyd at ddau safle.
4. Gall Unedau Cwarantîn fod dan do ac/neu yn yr awyr agored cyn belled â'u bod yn bodloni'r Gofynion a'r Rheolau Gweithredol.
5. Rhaid i Unedau Cwarantîn gael eu hardystio gan Gorff Ardystio a achredwyd gan Wasanaeth Achredu'r DU (UKAS). Bydd cyrff ardystio yn codi ffi ar y ceidwad da byw am y gwasanaeth hwn.
6. Dyrennir Rhif y Daliad (CPH) unigryw i Unedau Cwarantîn.
7. Dim ond ar ddaliadau gyda Rhif y Daliad parhaol y gellir sefydlu Unedau Cwarantîn. Ni ellir eu sefydlu ar dir sydd wedi'i gysylltu â'r prif ddaliad gan gysylltiad tir dros dro (tLA) neu ar ddaliadau sydd â Rhif y Daliad dros dro (tCPH).

8. Dim ond am ddeunaw mis mae Unedau Cwarantîn wedi'u hardystio, ac mae angen ail-ardystio wedi hynny. Bydd Cyrff Ardystio yn codi tâl am hyn.
9. Rhaid i wartheg, defaid a geifr newydd aros yn eu lle am chwe niwrnod cyfan cyn eu symud i'r prif ddaliad (e.e. bydd anifail a leolwyd mewn Uned Gwarantîn ar ddydd Sadwrn wedi cwblhau gwaharddiad symud am 6 niwrnod erbyn 00:00 y dydd Sadwrn canlynol). Rhaid symud yr anifeiliaid i'r prif ddaliad cyn bod modd eu gwerthu neu eu trosglwyddo i ddaliad arall. Nid yw symud gwartheg, defaid a geifr o un Uned Gwarantîn i'r prif ddaliad yn arwain at waharddiad symud am 6 niwrnod ar y prif ddaliad. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol ar gyfer mynychu sioeau (gweler yr adran ar Reolau Gweithredol Uned Gwarantîn am ragor o fanylion) a gellir symud anifeiliaid yn syth i'r lladd-dy o Uned Gwarantîn ar unrhyw adeg (gweler y Rheolau Gweithredol).
10. **Rhaid** i geidwaid da byw roi gwybod am symudiadau unigol i Unedau Cwarantîn o fewn 24 awr, drwy'r system olrhain gwartheg (CTS) neu EIDCymru yn achos defaid a geifr. Rhaid rhoi gwybod am symudiadau allan o Uned Gwarantîn i'r prif ddaliad o fewn tri diwrnod. Rhaid cadw cofnod o'r symudiadau i mewn ac allan o'r Unedau Cwarantîn ar gofrestr y daliad/cofrestr y ddiadell a rhaid diweddaru'r cofnodion hyn o fewn 36 awr i'r symudiad.
11. Cynhelir archwiliadau dirybudd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar Unedau Cwarantîn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Gofynion a'r Rheolau Gweithredol. Os nad ydynt yn cydymffurfio, gall Unedau Cwarantîn gael eu hatal neu eu dirymu, yn amodol ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio hwnnw. Mae gan geidwaid da byw hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan gorff ardystio i atal neu i ddirymu Uned Gwarantîn.

## Gofynion Unedau Cwarantîn

12. Rhaid i wartheg, defaid a geifr o fewn Uned Gwarantîn gael eu hatal rhag gwneud cysylltiad uniongyrchol ag anifeiliaid eraill. Ystyr 'anifeiliaid' dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, yw gwartheg (ac eithrio bison ac yak), ceirw, geifr, moch a defaid.

### Unedau Cwarantîn dan do

13. Dylai Uned Gwarantîn dan do fod ar wahân i rai eraill ar y daliad. Pan mae Uned Gwarantîn wrth ymyl adeilad arall neu adeiladau ar y daliad:
    a. sy'n cael eu defnyddio gan anifeiliaid, ni ddylai'r adeiladau fod yn rhannu'r un awyrle ac ni ddylent gynnig unrhyw gyfle i anifeiliaid yn yr Uned Gwarantîn gael cysylltiad uniongyrchol â'r rhai yn yr adeilad(au) cyfagos;
    b. sy'n cael eu defnyddio i storio peiriannau/offer, porthiant neu sarn y bwriedir ei ddefnyddio ar y prif ddaliad, ac ni ddylai anifeiliaid o fewn yr

Uned Gwarantîn allu cysylltu'n uniongyrchol â'r peiriannau/offer, y porthiant na'r sarn hynny.

14. Rhaid i’r seilwaith fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.

15. Rhaid cael mynediad penodol (gweler adran 'Bioddiogelwch' y Rheolau Gweithredol), a threfniadau rheoli elifiant/tail, trefniadau porthi/dyfrio a threfniadau lles/trafod.

16. Gallai gynnwys ardal gyfochrog megis buarth, padog neu gae, ar yr amod bod unrhyw ardaloedd awyr agored yn bodloni gofynion Uned Gwarantîn awyr agored.

## Unedau Cwarantîn awyr agored

17. Rhaid i Uned Gwarantîn yn yr awyr agored, bob amser, ddarparu gwahaniad rhwng gwartheg mewn cwarantîn, defaid a geifr ac anifeiliaid eraill gyda ffens ddwbl sy’n cadw stoc i mewn/allan, gan gynnwys mynedfeydd:
    a. sydd o leiaf **ddau fetr** oddi wrth ei gilydd os yw'r Uned Gwarantîn wedi'i **bwriadu** ar gyfer defaid a geifr yn unig neu
    b. sydd o leiaf **tri metr** oddi wrth ei gilydd os yw’r Uned Gwarantîn wedi’i bwriadu ar gyfer gwartheg.
18. Does dim angen ffensio dwbl os yw'r Uned Gwarantîn yn gyfagos i ffin naturiol neu un a wnaed gan ddyn (ac eithrio gwrychoedd) a fyddai'n darparu'r un gwahaniad â 17 a) neu b) uchod (h.y. gall y ffin yn ddigonol ac yn gyson atal cyswllt uniongyrchol rhwng cwarantîn anifeiliaid ac anifeiliaid eraill). Bydd y corff ardystio, ar ôl archwilio, yn penderfynu a yw ffin yn bodloni'r meini prawf ar sail unigol, gan ystyried y bydd cynllun ac amrywiaeth y ffiniau posibl o amgylch yr Uned Gwarantîn yn amrywio o fferm i fferm.
19. Rhaid i'r seilwaith fod yn barhaol ac yn addas ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.
20. Rhaid cael mynediad penodol (gweler adran 'Bioddiogelwch’, 'Rheolau Gweithredol’), a threfniadau rheoli elifiant/tail, trefniadau porthi/dyfrio a threfniadau lles/trafod. Rhaid i'r ddarpariaeth ddŵr ar gyfer anifeiliaid sydd mewn Uned Gwarantîn awyr agored beidio â bod drwy fynediad uniongyrchol i nant, afon neu gwrs cyffredin.

# Rheolau gweithredu Unedau Cwarantîn

## Gwaharddiad symud am 6 niwrnod

21. Rhaid i wartheg, defaid a geifr aros mewn Uned Gwarantîn am chwe niwrnod cyfan **(e.e. bydd anifail a symudwyd i Uned Gwarantîn ar ddydd Sadwrn wedi cwblhau gwaharddiad symud am 6 niwrnod erbyn 00:00 y dydd Sadwrn canlynol).** Os yw anifeiliaid hanner ffordd drwy’r cyfnod cwarantîn pan fydd eraill yn cyrraedd yno, rhaid i'r holl anifeiliaid aros yn yr Uned Gwarantîn am chwe niwrnod cyfan o'r diwrnod y cyflwynwyd yr anifail/anifeiliaid diwethaf.

## Bioddiogelwch

22. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid eraill, gan gynnwys ceffylau, asynnod a chamelidau (lamas, alpacas ac ati) mewn Uned Gwarantîn pan fydd gwartheg, defaid neu eifr mewn cwarantîn.
23. Rhaid i wartheg, defaid a geifr sy'n cyrraedd y daliad gael eu cludo’n uniongyrchol i Uned Gwarantîn, ac ni ddylid eu cerdded drwy unrhyw ran o'r daliad/fferm nad yw'n rhan o'r Uned Gwarantîn. Wrth ddefnyddio cerbydau sy'n cludo anifeiliaid, gellir eu gyrru’n syth i mewn i’r/bacio’n ôl i’r

Uned Gwarantîn, a’r tinbren wedi'i ollwng i’r Uned Gwarantîn. Rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd yn drylwyr cyn ei ddefnyddio eto.

24. Os oes angen teithio fwy nag unwaith i gasglu a danfon anifeiliaid o **un safle** (e.e. marchnad) i Uned Gwarantîn:

    a. **nad yw'n cael ei defnyddio (h.y. does dim anifail mewn cwarantîn)**, nid oes angen glanhau a diheintio'r cerbyd rhwng pob taith, ar yr amod nad ydych yn mynd i unrhyw safle arall rhwng tripiau.

       Unwaith y bydd yr holl anifeiliaid wedi'u symud i’r Uned Gwarantîn, rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd yn drylwyr cyn ei ddefnyddio eto.

    b. sy'n **cael** ei ddefnyddio (h.y. bod anifeiliaid hanner ffordd drwy gyfnod cwarantîn), rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd yn drylwyr rhwng pob taith a chyn ei ddefnyddio eto.

25. Ni ddylai anifeiliaid mewn Uned Gwarantîn ac anifeiliaid ar y prif ddaliad rannu'r un cyfleusterau godro. **Ni ddylai** anifeiliaid adael Uned Gwarantîn i gael eu godro. Gellir gwerthu llaeth anifeiliaid mewn cwarantîn yn y ffordd arferol, ond **ni ddylid** ei fwydo i anifeiliaid eraill ar y prif ddaliad (gan gynnwys cathod a chŵn).

26. Rhaid i 'Gynllun Bioddiogelwch' (gweler yr adran ar y Broses Ymgeisio a Chymeradwyo) ategu cais am Uned Gwarantîn. Dylai'r cynllun fanylu sut y caiff y rheolau canlynol eu bodloni, ynghyd â lleoliad y cyfleusterau, yr offer a'r deunyddiau ar gyfer glanhau a diheintio cerbydau, offer, dillad ac esgidiau:

    a. Rhaid i unrhyw berson sy'n mynd i mewn i Uned Gwarantîn wisgo esgidiau a dillad addas i'r gwaith sy'n cael ei wneud. Rhaid neilltuo dillad ac esgidiau penodol i’w gwisgo yn yr Uned Gwarantîn neu eu glanhau a'u diheintio cyn mynd i mewn ac allan o’r Uned Gwarantîn.

    b. Rhaid cael cyfleusterau golchi/glanhau dwylo, a rhaid i unrhyw un sy'n mynd i mewn i Uned Gwarantîn olchi/glanhau ei ddwylo cyn cyrraedd a gadael y safle.

    c. Rhaid dangos arwyddion priodol pan fo Uned Gwarantîn ar waith fel bod staff ac ymwelwyr y fferm yn gwybod eu bod yn dilyn y gweithdrefnau bioddiogelwch gofynnol.

27. **Dim ond diheintydd cymeradwy y dylid ei ddefnyddio.** Mae rhestr ohonynt ar gael ar [wefan Defra]

## Peiriannau ac offer

28. Dylid ystyried cael peiriannau a/neu offer sydd wedi’u neilltuo i’r Uned Gwarantîn, ac sy'n aros fewn yr Uned honno, gydol y cyfnod y caiff ei defnyddio. Gellir dod â pheiriannau a/neu offer i mewn i Uned Gwarantîn ar unrhyw adeg. Rhaid glanhau a diheintio unrhyw beiriannau a/neu offer sy'n gadael Uned Gwarantîn yn ystod y cyfnod gwaharddiad symud am 6 niwrnod (h.y. tra mae’n cael **ei ddefnyddio**) yn drylwyr cyn ei ddefnyddio ar ran arall o'r daliad.

## Bwyd a sarn

29. Gellir dod â bwyd anifeiliaid a/neu sarn i mewn i'r Uned Gwarantîn pan mae ar waith. Os oes rhaid mynd â pheiriannau i mewn i'r Uned Gwarantîn tra mae'n cael ei defnyddio, dylid ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr cyn ei ddefnyddio ar ran arall o'r daliad. Does dim rhaid glanhau a diheintio peiriannau sy'n cael eu defnyddio i ollwng neu roi bwyd a/neu sarn mewn Uned Gwarantîn, cyn belled nad ydynt yn mynd i'r un lloc â'r anifeiliaid mewn cwarantîn nac yn dod i gysylltiad â nhw. Fel arall, gall peiriannau aros yn yr Uned Gwarantîn heb orfod cael eu glanhau a'u diheintio rhwng eu defnyddio.
30. Ni ddylid, dan unrhyw amgylchiadau, gymryd bwyd o Uned Gwarantîn **sydd ar waith** na'i fwydo i dda byw na'i storio ar ran arall o'r daliad.
31. Ni ddylech, ar unrhyw gyfrif, gymryd sarn, tail nac elifion o Uned Gwarantîn **sydd ar waith,** na'i ddefnyddio, ei storio na'i waredu ar ran arall o'r daliad.

## Lles anifeiliaid

32. Dylai anifeiliaid mewn Uned Gwarantîn gael eu harchwilio'n rheolaidd am unrhyw arwyddion o glefyd neu salwch.
33. Gall anifeiliaid adael un Uned Gwarantîn a'u cludo i safle milfeddygol i'w trin. Ar ôl eu dychwelyd yn syth i'r Uned Gwarantîn, rhaid iddynt gwblhau gweddill eu gwaharddiad symud am 6 niwrnod cyn belled na fuont mewn cysylltiad ag unrhyw anifail arall.
34. Dan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007, mae'n ofynnol i anifail fod yn ffit ar gyfer y siwrnai arfaethedig cyn i'r daith gychwyn a pharhau'n ddigon heini gydol y daith. Mae hyn yn golygu y dylai'r anifail fod yn ddigon ffit i oddef y daith yn ei chyfanrwydd (gan gynnwys llwytho, dadlwytho ac unrhyw seibiannau ar hyd y ffordd) heb fawr o effaith andwyol arno os o gwbl; ac ni ddylai'r daith achosi unrhyw ddioddefaint nac anaf i'r anifail. Nid yw rheolau ffitrwydd i deithio fel arfer yn caniatáu cludo anifeiliaid beichiog os yw 90% neu fwy o'r cyfnod cario disgwyliedig eisoes wedi pasio nac anifeiliaid roddodd enedigaeth yn yr wythnos flaenorol.
35. Pan gaiff Unedau Cwarantîn eu defnyddio at ddibenion cwarantîn, maen nhw'n cael eu hystyried yn ddaliad ar wahân i'r prif ddaliad. Mae hyn yn golygu y byddai angen tagiau clust ar wahân ar gyfer unrhyw anifail sy'n cael ei eni mewn Uned Gwarantîn. Bydd Rhif y Daliad pob Uned Gwarantîn yn cael marciau unigryw ar gyfer buches/diadell, pe bai angen tagiau clust. Bydd marciau'r ddiadell/eifre ar y dystysgrif Uned Gwarantîn. Pwysig: Rhaid tagio anifeiliaid cyn iddynt adael y daliad lle cawsant eu geni.
36. Rhaid cofnodi marwolaeth anifail mewn Uned Gwarantîn yng nghofrestr y daliad. Rhaid i gofrestr y daliad fod ar gael yn ystod archwiliadau. Hefyd, os bydd unrhyw wartheg yn marw, rhaid rhoi gwybod i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) o fewn saith niwrnod i'r farwolaeth.

## TB mewn gwartheg - gwybodaeth bwysig i geidwaid gwartheg

37 Bydd holl brofion gwyliadwriaeth TB y fuches yn berthnasol i'r prif ddaliad ac unrhyw Unedau Cwarantîn cysylltiedig h.y. byddant yn cael eu trin fel un uned.

38 Os bydd statws heb TB swyddogol wedi'i atal (OTFS) neu statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW) mewn buches ar ddaliad lle mae Uned Gwarantîn ar waith, bydd unrhyw gyfyngiadau symud a gofynion profion TB cysylltiedig yn berthnasol i'r prif ddaliad ac unrhyw Unedau cysylltiedig h.y. yn cael eu trin fel un uned.

39 Rhaid i anifeiliaid mewn Uned Gwarantîn gael prawf TB yn yr Uned honno a rhaid glanhau a diheintio unrhyw offer a symudir i mewn i'r Uned er mwyn cynnal y prawf TB cyn dychwelyd i'r prif ddaliad.

40 Pan fydd anifail angen prawf ôl-symud, ar ôl mynd i ddaliad yn Ardal TB Isel Cymru, gellir gwneud hyn ar ôl symud o'r Uned Gwarantîn i'r prif ddaliad. Fodd bynnag, cofiwch fod amodau profi penodol yn berthnasol i'r drwydded sy'n ymwneud ag anifeiliaid Unedau Cwarantîn a ddefnyddir at ddibenion sioe (gweler paragraff 46 isod).

41 Os yw anifail buchol wedi'i gadw am 60 diwrnod neu fwy mewn Uned Gwarantîn sydd mewn Ardal TB Canolradd neu Uchel yng Nghymru, yna bydd angen prawf cyn symud yr anifail buchol o'r Uned Gwarantîn i'r prif ddaliad. Fel arall, does dim angen cynnal profion cyn symud ar gyfer symudiadau rhwng yr Uned Gwarantîn a'r prif ddaliad.

## Mynychu sioeau

42. Gellir defnyddio Unedau Cwarantîn i reoli symudiadau i sioeau ac yn ôl. Os bydd anifail a fu mewn sioe drwyddedig yn dychwelyd i Uned Gwarantîn, gall fynd i sioeau trwyddedig dilynol wedyn, drwy adael a dychwelyd drwy'r Uned Gwarantîn, heb orfod cael gwaharddiad symud am6 niwrnod. Dim ond ar ôl dychwelyd o'r sioe olaf y bydd angen gwaharddiad symud am 6 niwrnod i'r anifail mewn Uned Gwarantîn.

43. Os bydd anifeiliaid eraill hanner ffordd drwy gyfnod cwarantîn pan fydd anifeiliaid sy'n dychwelyd o'r sioe yn cael eu cyflwyno yno, yna mae'r gwaharddiad symud 6 niwrnod yn ailgychwyn a rhaid i'r **holl** anifeiliaid aros yn yr Uned Gwarantîn am chwe niwrnod cyfan o'r diwrnod y daethpwyd â'r anifail/anifeiliaid olaf i mewn.

44. Nid yw ceidwaid da byw heb Uned Gwarantîn yn gallu anfon anifeiliaid i sioeau olynol o fewn chwe niwrnod, ac ar ôl dychwelyd o sioe bydd gwaharddiad symud am 6 niwrnod yn berthnasol i'r daliad cyfan.

45. Rhaid rhoi gwybod am symudiadau anifeiliaid unigol rhwng Unedau Cwarantîn a sioeau o fewn 24 awr drwy'r System Olrhain Gwartheg neu EIDCymru yn achos defaid a geifr.

46. Gellir defnyddio Uned Gwarantîn ardystiedig (QU) gan geidwaid mewn Ardal TB Isel, sydd wedi symud gwartheg arddangos i sioe heb ei heithrio

ac yn ôl - lle byddai dychwelyd i'r Ardal TB Isel, cyn y gellir symud yr anifail i sioe arall, yn gofyn am brawf TB clir ar ôl symud rhwng 60-120 diwrnod wedi'r symudiad hwnnw.

47. Ni fydd anifeiliaid, sydd angen prawf ôl-symud ar ôl dychwelyd o sioe heb ei heithrio i'r Ardal TB Isel, yn cael symud i sioeau wedi eu heithrio a heb eu heithrio yn ystod y tymor, oni bai eu bod:

- wedi cael prawf ôl-symud gyda chanlyniadau clir; neu
- yn symud i Uned Gwarantîn, wedi'u trwyddedu i symud i ffwrdd cyn prawf ôl-symud ac yn aros yn yr Uned honno (pan nad yw mewn sioe) gydol y tymor sioeau, tan fod prawf ôl-symud terfynol wedi'i gwblhau gyda chanlyniadau clir. Bydd angen cynnal prawf ôl-symud 60-120 diwrnod ar ôl y symud cychwynnol yn ôl a'r symudiad olaf yn ôl (o'r flwyddyn) o sioe heb ei heithrio a leolir yn Ardal TB Canolradd neu TB Uchel yng Nghymru, neu yn ymyl, neu Ardal TB Uchel yn Lloegr i'r Uned Gwarantîn. Rhaid symud anifeiliaid buchol o'r Uned yn syth ar ôl bodloni'r gofynion profion terfynol ar ôl symud.

48. Dim ond gwartheg sioeau sy'n gallu byw yn yr Uned Gwarantîn ardystiedig, tra bod yr uned yn cael ei defnyddio at y diben hwn. Gweler y cwestiynau cyffredin am TB am fwy o fanylion: https://llyw.cymru/rhaglen-dileu-tb-gwartheg-cwestiynau-cyffredin

## Symud i ladd-dai

49. Gallwch symud anifeiliaid o Uned Gwarantîn yn uniongyrchol i ladd-dy ar unrhyw adeg.

## Symudiadau i farchnadoedd

50. Ni ellir defnyddio Unedau Cwarantîn i reoli symudiadau i/o farchnadoedd lluosog. Rhaid i anifail sy'n dychwelyd o farchnad fod yn destun gwaharddiad symud am 6 niwrnod mewn Uned Gwarantîn cyn dychwelyd i'r prif ddaliad. Yn yr un modd, os caiff anifail ei brynu o'r farchnad, rhaid iddo fod yn destun gwaharddiad symud am 6 niwrnod mewn Uned Gwarantîn.
51. Ystyrir bod symudiadau o farchnadoedd yn cynnwys mwy o risg bioddiogelwch oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys: mwy o anifeiliaid yn agos at ei gilydd ac yn rhannau'r un awyrle, ac yn symud yn amlach o le i le.

## Defnyddio Uned Gwarantîn at ddibenion eraill

52. Gellir trin Uned Gwarantîn fel rhan o'r prif ddaliad a'i defnyddio at ddibenion eraill pan nad oes anifeiliaid mewn cwarantîn. Gall hyn gynnwys storio cerbydau neu gyfarpar, eu defnyddio gan anifeiliaid (o unrhyw rywogaeth) o'r prif ddaliad, a gellir tyfu cnwd porthiant mewn unedau cwarantîn awyr agored.

53. Rhwng pob defnydd, mae'n arfer da cael gwared ar yr holl sarn ac unrhyw fwyd/porthiant heb ei fwyta, a glanhau a diheintio Unedau Cwarantîn dan do yn drylwyr.

### Cadw cofnodion

54. Mae Rhif y Daliad unigryw yn cael ei ddyrannu i Unedau Cwarantîn. Rhaid i geidwaid da byw roi gwybod am symudiadau anifeiliaid unigol i'r Unedau o fewn 24 awr, trwy'r System Olrhain Gwartheg neu EIDCymru yn achos defaid a geifr. Rhaid rhoi gwybod am symudiadau allan o'r Uned Gwarantîn o fewn tridiau.
55. Yn achos gwartheg, rhaid cofnodi'r symudiad allan o Uned Gwarantîn a'r symud i'r prif ddaliad yr un pryd.

56. Mae gan Uned Gwarantîn Rif y Daliad ar wahân i'r prif ddaliad, felly rhaid cadw cofnod o'r symudiadau i mewn ac allan o Unedau Cwarantîn ar gofrestr daliad/geifre neu gofrestr diadell ar wahân i'r un a gedwir ar gyfer y prif ddaliad. Rhaid diweddaru'r cofnodion hyn o fewn 36 awr i'r symud.

57. Does dim angen rhoi gwybod i'r System Olrhain Gwartheg nac EIDCymru am symudiadau anifeiliaid rhwng y prif ddaliad a'r Uned Gwarantîn pan **nad** yw'r Uned honno ar waith at ddibenion cwarantîn, na'i gofnodi ar gofrestr y daliad.

### Unedau Cwarantîn lluosog a safleoedd lluosog

58. Gall daliadau fferm gael hyd at ddwy Uned Gwarantîn a gall pob Uned Gwarantîn gynnwys hyd at ddau safle.
59. Er mwyn i ddwy Uned Gwarantîn gael eu rheoli'n annibynnol, rhaid iddynt gael eu hardystio ar wahân. Bydd cyrff ardystio yn codi ffi ar geidwaid da byw er mwyn ardystio **pob** Uned Gwarantîn. Rhoddir Rhif y Daliad ar wahân i bob Uned Gwarantîn fel bod modd cofnodi symudiadau i mewn ac allan o bob Uned.
60. Lle mae un Uned Gwarantîn yn cynnwys dau safle, a all fod dan do, yn yr awyr agored neu gyfuniad o'r ddau, caiff y ddau safle eu trin fel un at ddibenion y gwaharddiad symud am 6 niwrnod a byddant yn cael un Rhif y Daliad. Os cyflwynir anifeiliaid i un safle, yna ystyrir bod y ddau safle yn weithredol. Os yw anifeiliaid hanner ffordd drwy gyfnod cwarantîn ar un safle pan gyflwynir anifeiliaid i'r safle arall, mae'r gwaharddiad symud am 6 niwrnod yn **ailgychwyn** ar y ddau safle.

## Proses ymgeisio a chymeradwyo

61. Cyn y gellir defnyddio Uned Gwarantîn, rhaid iddi gael ei harchwilio a'i chymeradwyo gan gorff ardystio wedi'i achredu gan UKAS. Mae ffurflenni cais a chanllawiau sy'n ymwneud â'r broses gymeradwyo ar gael gan y cyrff ardystio. Un corff ardystio sydd wedi'i achredu i ardystio Unedau

Cwarantîn yng Nghymru ar hyn o bryd, sef Quality Welsh Food Certification Ltd (QWFC). Bydd cyrff achredu yn codi ffi am eu gwasanaeth a bydd eu canllawiau yn nodi hyn yn glir.

62. Rhaid cyflwyno map, neu fapiau, o'r Unedau Cwarantîn arfaethedig gyda chais. Rhaid i'r mapiau a ddarperir fod o'r raddfa briodol, ac yn nodi ffiniau'r Uned Gwarantîn arfaethedig yn glir. Bydd y gofynion yn cael eu nodi yng nghanllawiau'r corff ardystio.

63. Rhaid cyflwyno Cynllun Bioddiogelwch gyda chais. Bydd y gofynion yn cael eu nodi yng nghanllawiau'r corff ardystio.

64. Does dim rhaid i geidwaid da byw wneud cais i Lywodraeth Cymru am Rif y Daliad; os caiff Uned Gwarantîn ei chymeradwyo, bydd y corff ardystio yn gwneud hyn ar eu rhan gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir yn ffurflen gais yr Uned Gwarantîn.

65. Bydd Llywodraeth Cymru yn creu rhifau newydd Rhif y Daliad ar gyfer Unedau Cwarantîn ac yn rhoi gwybod i'r corff ardystio a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Rhaid i'r Asiantaeth gael yr wybodaeth hon at ddibenion archwilio.

66. Bydd y corff ardystio yn cyflwyno tystysgrif i geidwad y da byw, a fydd yn cynnwys Rhif y Daliad newydd, y dyddiad pan ellir defnyddio'r Uned Gwarantîn, y dyddiad gorffen a gwybodaeth am y rhywogaeth sydd i'w chadw yn yr Uned Gwarantîn. Bydd y map a gyflwynir gan geidwad da byw yn y cyfnod ymgeisio yn rhan o'r dystysgrif hefyd.

67. Rhaid i geidwaid da byw gadw'r dystysgrif a sicrhau ei bod ar gael yn ystod archwiliadau.

68. **Rhaid i'r ceidwad da byw roi'r wybodaeth ddiweddaraf i EIDCymru a/neu roi gwybod i'r BCMS mwyn cofrestru Rhif y Daliad newydd ar y system olrhain symudiadau gwartheg.**

## Archwiliadau mewn defnydd

69. Bydd APHA yn cynnal archwiliadau dirybudd o'r defnydd o Unedau Cwarantîn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Gofynion a'r Rheolau Gweithredu. Rhaid sicrhau bod y Cynllun Bioddiogelwch a chofrestr y daliad/cofrestr y ddiadell ar gael i'w harchwilio.

70. Yn ystod archwiliad, efallai y bydd APHA am edrych ar dagiau clust yr anifeiliaid mewn Uned Gwarantîn. Rhaid i geidwaid da byw gydymffurfio â chais o'r fath a chyflwyno anifeiliaid i'w harchwilio.

71. Os nad yw'n cydymffurfio, gellir atal neu ddirymu Unedau Cwarantîn, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r achos o ddiffyg cydymffurfio. Mae gan geidwaid da byw hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i atal neu i ddirymu Uned Gwarantîn, gyda'r corff ardystio.

72. Bydd y lefelau cydymffurfio a'r cosbau cysylltiedig i'w gweld mewn canllawiau sydd ar gael gan y corff ardystio.

## Cynnal Uned Gwarantîn – ailardystiad 18 mis

73. Caiff Unedau Cwarantîn eu hardystio am 18 mis yn unig, ac wedi hynny mae angen ail-ardystio. Felly, bydd angen i gyrff ardystio atgoffa ceidwaid da byw o'r angen i ail-ardystio Unedau cyn y daw’r cyfnod hwnnw i ben. Bydd cyrff ardystio yn codi tâl am ail-ardystio.

74. Os nad yw ceidwad da byw am barhau i ddefnyddio'r Uned Gwarantîn ar ôl ei ddyddiad gorffen, dylai roi gwybod i'r corff ardystio am hyn. Ni fydd modd defnyddio’r Uned Gwarantîn fel eithriad i'r gwaharddiad symud am 6 niwrnod y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen.
75. Os yw ceidwad wedi gofyn am ail-ardystio, bydd y corff ardystio yn trefnu archwiliad cyn gofyn am Rif y Daliad newydd gan Taliadau Gwledig Cymru ac yn ail-ardystio’r Uned Gwarantîn.
76. Bydd gofyn i'r ceidwad gofrestru ei Rif y Daliad newydd gydag EIDCymru yn achos defaid a geifr neu’r BCMS yn achos gwartheg.
77. Ni fydd angen i’r ceidwad gyflwyno cais newydd wrth ofyn am ail-ardystio ei Uned Gwarantîn os nad yw manylion y cais gwreiddiol wedi newid, os yw’r map/y cynllun bioddiogelwch yn dal i fod yn addas i’r diben, a’i fod wedi gwneud cais mewn da bryd.

78. Os bu unrhyw newidiadau i'r cais neu’r map/cynllun, neu os na chafodd y cais ei gyflwyno mewn da bryd, bydd angen i’r ceidwad lenwi a chyflwyno ffurflen gais newydd er mwyn i'r corff ardystio drefnu i ail-archwilio ac ailardystio.